GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr Grwp Rhieni

CYFRIFOL: **Gweithwyr Prosiect Rhieni Ifanc Ni**
ADRAN: **Rhieni Ifanc Ni**
LLEOLIAD: **CAERNARFON neu PWLLHELI neu BALA**

Pwrpas y Rôl: I Wirfoddoli o fewn prosiect Rhieni Ifanc Ni a cynorthwyo grwp rhieni

Prif dyletswyddau

- Cynorthwyo'r cefnogwr teulu/mentor cyfoed I drefnu a chydlynu'r grwpiau rhieni
- Ymuno a'r grwpiau rhieni yn wythnosol
- Cyfathrebu gyda'r rhieni a'u plant
- I feddwl am syniadau newydd o weithgareddau I'r grwp rhieni
- I fod yn gyfeillgar a hyderus o fewn y grwp.
- I gymryd rhan yn y gweithgareddau a drefnir

Manteision o wirfoddoli

- I ddysgu a datblygu sgiliau drwy brofiad ymarferol
- Datblygiad a/neu hyfforddiant personol a phroffesiynol
- Y gallu i archwilio gwahanol fathau o gyfleoedd gwaith yn wirfoddol
- Cyfle i fynd allan, cael hwyl a chwrdd â phobl newydd.
- Profi heriau newydd
- Cefnogi eich cymuned leol - rhoi rhywbeth yn ôl, boddhad personol gan wybod eich bod wedi helpu eraill
- Cryfhau eich CV.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol. Mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau

MANYLION PERSON - Gwirfoddolwr

Hanfodol
Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig
Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol
Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm
Yn hyblyg i weithio yn unol â gofynion y dyletswyddau sydd ynglŷn â'r rôl

Dymunol
Profiad o weithio gyda' helpu pobl ifanc a plant
Addysg a phrofiad perthnasol i'r rol